Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

DIWYLLIANT
CONWY
CULTURE

GIGS Y GAEAF
WINTER SOUNDS

# Creu Conwy Gigs y Gaeaf

**Gwahoddiad i roi dyfynbris: Darparu digwyddiadau byw cerddorol a gair llafar**

## 1.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae diwylliant a’r celfyddydau yn cyfrannu dros £11.8 biliwn i economi’r DU bob blwyddyn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn gwerthfawrogi cyfraniad ein sector diwylliannol ac adlewyrchir hynny yn y maes blaenoriaeth yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-202. Mae Creu Conwy - Creu Sbardun, Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021 – 2028 wedi cael ei datblygu er mwyn cyflawni’r amcanion hyn a hybu adnewyddiad cymunedol. Mae cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cefnogi’r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu’r strategaeth.

Un o brosiectau blaenllaw Creu Conwy yw Gigs y Gaeaf, gŵyl gerddoriaeth sirol a lansiwyd yn 2022, gyda’r nod o ddatblygu gallu lleol i ddarparu digwyddiadau cerddoriaeth byw a gwella’r hyn sydd gennym i’w gynnig y tu allan i’r tymor prysur gyda rhaglen gyffrous, hygyrch ac am ddim. Gwyliwch ffilm fer o’r digwyddiadau yma: Diwylliant Conwy | Gigs y Gaeaf

## 2.0 GIGS Y GAEAF 2025 – CEFNDIR Y PROSIECT

Rydym yn awyddus i adeiladu ar weithgarwch Gigs y Gaeaf blaenorol a’r gwaith arbennig arall sy’n cael ei wneud o amgylch y sir i gefnogi sîn bywiog cerddoriaeth fyw a gair llafar Conwy.

Hoffem gomisiynu grwpiau cymunedol, sefydliadau a lleoliadau i gynnal cyfres o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw a gair llafar ar draws sir Conwy. Y nod yw:

- Cynyddu mynediad i bobl Conwy at ddigwyddiadau byw rhad ac am ddim a chost isel
- Galluogi grwpiau, sefydliadau a lleoliadau i ddatblygu eu cynhwysedd
- Cefnogi'r economi gyda'r nos ac yn ystod tymor y Gaeaf
- Cefnogi pobl greadigol leol gyda chyfleoedd sy’n gysylltiedig â'r diwydiant cerddoriaeth
- Datblygu a chryfhau rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol ar draws y sir
- Digwyddiadau amrywiol, uwchraddio’r hyn sy’n cael ei gynnig, rhoi cynnig ar rywbeth newydd ac ati

## 3.0 Y GOFYNION

Mae CBSC yn gwahodd dyfynbrisiau gan grwpiau a sefydliadau sydd mewn sefyllfa dda i gynllunio, hyrwyddo a darparu digwyddiad(au) cerddoriaeth fyw a gair llafar cyffrous a fydd yn cael eu hyrwyddo

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

fel rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau wedi'u curadu yn y gymuned o dan faner Gigs y Gaeaf. Hoffem i'r rhaglen gynnwys rhywbeth ar gyfer pob ystod oedran ac mae ystyriaethau pwysig eraill yn cynnwys:

- Ffocws cryf ar y Gymraeg ac amrywiaeth (er y caiff digwyddiadau Saesneg yn unig eu hystyried hefyd)
- Digwyddiadau am ddim neu am gost isel a hygyrch
- Cyfleoedd i artistiaid lleol a chriw cefn llwyfan
- Cyrraedd yn ddaearyddol ar draws y sir a defnyddio gofodau diwylliannol a chymunedol, ac efallai lleoliadau annisgwyl neu ryfeddol lle na fyddech yn disgwyl gweld cerddoriaeth fyw

Bydd angen i ddigwyddiadau a gweithgareddau a gefnogir gan y comisiwn hwn:

- Gael asesiad risg
- Bod â thrwyddedau ac yswiriant angenrheidiol yn eu lle
- Darparu cynllun digwyddiadau
- Cael eu hyrwyddo fel rhan o raglen Gigs y Gaeaf, gan ddefnyddio deunyddiau brandio a chydnabod y cyllidwr - Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
- Darparu gwybodaeth er mwyn adrodd a gwerthuso
- Cynhelir rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026

## 4.0 CYLLIDEB

Gwahoddir dyfynbrisiau rhwng £1,000 a £3,000 (heb gynnwys TAW). Costau i gynnwys ffioedd artistiaid, offer, trwyddedu, llogi lleoliadau, gweinyddu a'r holl gostau eraill.

Er gwybodaeth mae gennym gyfanswm o £12,000 i'w ddyrannu i'r prosiect hwn a byddwn yn ceisio comisiynu nifer o grwpiau a sefydliadau drwy'r Gwahoddiad i Roi Dyfynbris hwn.

## 5.0 AMSERLEN

| Cerrig Milltir | Dyddiad Dros dro |
|---|---|
| Cyflwyno dyfynbrisiau | Hanner Dydd 08/09/2025 |
| Dyfarnu contract | 19/09/2025 |
| Cynllun digwyddiad wedi'i gwblhau a deunydd hyrwyddo wedi'i gymeradwyo | 10/10/2025 |
| Pob allbwn y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni | 13/02/2026 |
| Diwedd contract (holl anfonebau wedi'u cyflwyno i'w talu) | 27/02/2026 |

## 6.0 GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Canllaw Digwyddiadau Conwy
- Diwylliant Conwy | Conwy Culture
- Safonau'r Gymraeg CBSC
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Llenwch y ffurflen Gwahoddiad i Roi Dyfynbris ac e-bostiwch hi at: creu@conwy.gov.uk erbyn: Hanner Dydd 08/09/2025